

**Gwybodaeth
am eich apwyntiad tinitws
ac asesiad clyw**

Gwasanaeth Awdioleg Gwent

Cyflwyniad

Mae'r daflen wybodaeth hon yn amlinellu'r gofal y byddwch chi'n ei gael pan fyddwch chi'n mynychu'r Adran Awdioleg i drafod eich tinitws a gael eich asesiad clyw.

Byddwn yn cymryd yn ganiataol eich bod yn cydsynio i gael un o'r triniaethau hyn pan fyddwch chi'n mynychu'r apwyntiad. Cofiwch y gallwch ddweud yn ystod yr apwyntiad os na fyddwch chi'n dymuno parhau gyda'r profion.

Rydyn ni'n eich annog yn gryf i ddod â ffrind neu aelod o'r teulu i bob apwyntiad. Cofiwch ddweud wrthym dros y ffôn neu pan fyddwch chi'n cyrraedd y clinig os hoffech chi gael eich gweld ar eich pen eich hun.

Os byddwch chi angen unrhyw gymorth i gyfathrebu, cofiwch ffonio'r adran gyda manylion yr iaith yr hoffech gyfathrebu ynddi a byddwn yn gwneud ein gorau i drefnu hyn ar eich cyfer.

Bydd eich apwyntiad gydag Awdiolegydd cwbl gymwysedig sydd â phrofiad mewn gosod cymhorthion clyw i oedolion ac mewn cynghori ar eu defnydd a'u budd.

Yn ystod eich apwyntiad

Bydd yr awdiolegydd yn gofyn am eich hanes er mwyn deall y problemau rydych chi'n eu hwynebu gyda'ch tinatws a chlyw. Mae'n bwysig eich bod yn egluro'r rhesymau pam eich bod wedi dod i gael prawf clyw fel bod yr awdiolegydd yn gallu teilwra'r apwyntiad i gyflawni eich anghenion. Byddwn yn gofyn i chi am fanylion eich anawsterau tinatws a chlyw a pha mor hir rydych chi wedi cael yr anawsterau hyn. Hefyd, bydd yr Awdiolegydd yn trafod y sefyllfaoedd lle mae eich clyw yn achosi problem. Bydd y wybodaeth hon yn ein helpu i benderfynu a ydych chi angen unrhyw help gyda'ch clyw.

Profion clyw

Bydd yr Awdiolegydd yn cynnal prawf clyw. Gofynnir i chi wrando ar synau drwy glustffonau ac ymateb pan fyddwch chi'n eu clywed. Bydd yr Awdiolegydd wedyn yn gallu asesu'r synau tawelaf y gallwch eu clywed.

Mae'n bosibl y byddwch chi angen prawf pellach i wirio symudiad eich drwm clust. Os felly, bydd darn bychan yn cael ei roi ymhob clust yn ei dro ac yna bydd yn chwythu i mewn i'ch clust. Ni ddylai hyn achosi unrhyw anghysur ond bydd eich clust yn teimlo'n llawn tra bydd yn cynnal y prawf.

Cofiwch, rydyn ni'n cymryd yn ganiataol eich bod yn cydsynio i gael y profion hyn pan fyddwch chi'n mynychu'r apwyntiad. Cofiwch ddweud yn ystod yr apwyntiad os na fyddwch chi am barhau gyda'r profion.

Canlyniadau'r profion hyn

Unwaith y byddwn wedi trafod canlyniadau profion eich clyw, byddwn wedyn yn trafod y ffordd orau y gallwn ni eich cefnogi gyda'ch reoli tinatws. Gall hwn cynnwys cyfeireb i Awdiolegydd sy'n arbenigo yn cymorth tinitws.

Os bydd yr Awdiolegydd yn gweld eich bod yn colli'ch clyw, mae'n bosibl y bydd yn eich cynghori y bydd gwisgo cymorth clyw o fudd i chi. Gallwn eich helpu i benderfynu a fydddech chi'n hoffi defnyddio cymorth clyw. Mae astudiaethau ymchwil yn awgrymu bydd defnyddio gymhorthion clyw yn eich helpu i reoli eich tinitws. Drwy wella eich clyw, byddwch yn mwy ymwybodol o synau bob dydd a gall hyn eich helpu i dynnu sylw oddi ar wrando ar eich tinitws.

Os byddwch chi'n penderfynu cael cymorth clyw, yna bydd yr Awdiolegydd yn trafod y math mwyaf addas i ffitio eich clust. Mae hyn yn dibynnu i ba raddau rydych chi wedi colli eich clyw. Mae dau fath o ddarn clust sy'n cael eu defnyddio:

- Mowld clust wedi'i fesur i chi. I gael hwn, bydd yr Awdiolegydd yn gosod darn bychan o sbwng yn llwybr eich clust gyda deunydd meddal wedyn fydd yn setio o fewn ychydig funudau. Yna, byddwn yn tynnu deunydd yr argraffiad a'r sbwng o'ch clust. Ni ddylech deimlo'n anghysurus yn ystod y driniaeth hon ond bydd eich clust yn teimlo'n llawn tra bod deunydd yr argraffiad yn llwybr y glust. Byddwn yn defnyddio'r argraffiad hwn i wneud mowld clust sydd wedi'i ffitio'n arbennig i'ch clust chi.
- Tiwb "sy'n ffitio clust agored" gyda chromen fydd yn cael ei mesur i ffitio'n gywir.

Ar sail y wybodaeth a roesoch i'r Awdiolegydd a chanlyniadau'r prawf clyw, byddwn yn trafod y modd y bydd cymorth clyw o fudd i chi. Bydd hyn wedyn yn cael ei nodi i ffurfio rhan o'ch Cynllun Rheoli Personol. Bydd y cynllun hwn yn amlinellu sut bydd y cymorth clyw'n eich helpu yn eich bywyd bob dydd.

Mae'r cymhorthion clyw sy'n cael eu gosod mewn clinigau GIG yn ffitio y tu ôl i'r glust a bydd yr Awdiolegydd yn dangos un o'r rhain i chi. Byddwn yn anfon apwyntiad ar gyfer gosod y cymorth clyw atoch o fewn 11 wythnos.

Weithiau, mae'n bosibl y bydd yr Awdiolegydd yn teimlo y dylid eich atgyfeirio at Feddyg Clust, Trwyn a Gwddf a bydd yn egluro pam bod angen hyn.

Os yw canlyniadau'r prawf clyw yn dangos clyw arferol mae yna sawl ffordd o helpu i reoli eich tinitws. Os oes angen help a chefnogaeth pellach, byddwch yn cael eich cyfeirio at Awdiolegydd sy'n arbenigo mewn tinitws.

Yn ystod yr apwyntiad, os bydd unrhyw beth nad ydych chi'n ei ddeall yn iawn, cofiwch ofyn ar unwaith.

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English".**